**Sut allai eich amgueddfa estyn gwell croeso i deuluoedd a phobl ifanc sy'n F/fyddar neu'n drwm eu clyw?**

Yn Kids in Museums, credwn fod amgueddfeydd yno i bawb. Ond efallai fod llawer o deuluoedd a phobl ifanc sy'n F/fyddar neu sy'n drwm eu clyw yn cael anhawster ymweld ag amgueddfeydd.

Ar draws y Deyrnas Unedig, mae 12 miliwn (un ymhob chwech) o bobl wedi eu heffeithio gan golled clyw. Wrth i'r boblogaeth heneiddio, bydd mwy ohonom yn cael ein heffeithio. Yn y DU heddiw, mae gan 900,000 o bobl golled clyw difrifol neu lwyr sy'n golygu mai ychydig iawn maen nhw eu clywed neu dydyn nhw'n clywed dim.

Mae tua 90% o blant byddar yn cael eu geni i deuluoedd sy'n clywed ac mae mwy na 75% yn mynd i ysgolion prif ffrwd heb ddim, neu fawr ddim, darpariaeth arbenigol. Mae diffyg cymorth yn aml yn golygu eu bod yn wynebu rhwystrau cyfathrebu bob dydd o'u bywydau ysgol a'u bywydau cymdeithasol a chartref. O ganlyniad, mae plant byddar yn aml yn dioddef unigrwydd cymdeithasol, iechyd meddwl gwael, hunan-barch isel a chanlyniadau addysgol gwael.

I wneud amgueddfa'n hygyrch i ymwelwyr sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw rhaid ceisio creu profiad cyfartal i'r ymwelwyr hyn. Mae'n bwysig deall fod pob person byddar yn wahanol – gyda gwahanol lefelau o fyddardod, cymhorthion clyw neu fewnblaniadau yn y cochlea, a gwahanol ddewisiadau cyfathrebu a thechnoleg. Mae rhai o'r awgrymiadau yn yr adnodd hwn yn cynnwys gwneud newidiadau gweddol fach i'r rhaglen sydd gennych yn barod er mwyn eu gwneud yn addas i bobl fyddar. Mae awgrymiadau eraill yn ymwneud â dealltwriaeth a newid diwylliannol dyfnach ar draws y sefydliad.

## Diffinio B/byddar:

Mae pobl "B fawr" Byddar yn eu hystyried eu hunain yn ddiwylliannol fyddar ac mae ganddynt hunaniaeth fyddar gref. Maen nhw'n cyfathrebu gydag iaith arwyddion gan fwyaf. Mae pobl "b fach" fel arfer yn bobl sydd â cholled clyw, sy'n defnyddio iaith lafar fel iaith gyntaf, ond efallai eu bod yn darllen gwefusau a/neu yn defnyddio cymhorthion clyw hefyd.

## Dechrau yn y dechrau – gwnewch gynllun

Penderfynwch beth yw'r camau cyntaf yr ydych eisiau eu cyflawni a sut y gallech adeiladu ar y rhain.

Dyma sut i gychwyn arni:

- **Ewch allan i weld beth sydd gan safleoedd eraill i'w gynnig.**

Mae enghreifftiau o safleoedd treftadaeth eraill ar ddiwedd y ddogfen hon.

- **Cynhwyswch deuluoedd a phobl ifanc sy'n F/fyddar neu'n drwm eu clyw a gofynnwch am eu hadborth.**

Defnyddiwch rwydweithiau sy'n bodoli'n barod i gysylltu â phobl – gofynnwch i ysgol leol i'r byddar, ysgol anghenion addysgol arbennig ac anableddau (SEND), neu elusennau y sonnir amdanynt ar waelod yr adnodd hwn. Er enghraifft, mae Frank Barnes School for Deaf Children yn trefnu Diwrnod i'r Teulu bob blwyddyn mewn partneriaeth â'r Llyfrgell Brydeinig, sy'n hygyrch i bawb.

Crëwch Banel Cynghori am Fynediad i ddod â'r teuluoedd a'r bobl ifanc hyn at ei gilydd â phobl eraill sydd â phrofiad byw o anabledd. Mae'r Rhwydwaith Anabledd Cydweithredol yn rhoi arweiniad ar sefydlu grŵp cynghori am anabledd. Mae gan Amgueddfa a Gerddi Horniman banel cynghori am fynediad hir-sefydledig sy'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn.

- **Ystyriwch sut i hyrwyddo eich cynnig i bobl sy'n F/fyddar neu'n drwm eu clyw ar eich safle ac ar-lein.**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn tynnu sylw at yr hyn sydd ar gael i ymwelwyr B/byddar ar eich gwefan. Mae'r Adroddiad Mynediad i Dreftadaeth 2022 yn amlinellu 10 ffordd o wella eich gwybodaeth am fynediad ar-lein.

Ystyriwch gynnig cyflwyniad i Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar eich gwefan, fel hon gan yr Oriel Genedlaethol neu Oriel Gelf Manceinion.

Mae Facebook yn ffordd dda o drefnu a hyrwyddo digwyddiadau hygyrch i bobl fyddar, gyda'i gydbwysedd o gyfathrebiad gweledol a thestun. Mae hefyd yn golygu eich bod yn gallu rhannu eich digwyddiad yn uniongyrchol yng ngrwpiau'r gymuned fyddar i roi gwybod i bobl.

Cofiwch ddangos yn glir bod eich digwyddiad yn hygyrch i bobl fyddar! Heblaw eich bod yn ei hyrwyddo felly, ni fydd llawer o bobl fyddar yn ei ystyried yn rhywbeth y gallant gymryd rhan ynddo.

Gwnewch yn siŵr, pryd bynnag y byddwch yn darparu rhif ffôn, eich bod yn darparu cyfeiriad e-bost ochr yn ochr ag o. Ceisiwch gynnig amrywiaeth mor eang ag y gallwch o ddulliau cysylltu – minicom neu ffôn testun, SMS, gwasanaeth cyfnewid testun fel NGT (Next Generation Text). Os oes gennych yr adnoddau, mae'r opsiwn o gael sgwrs fyw neu gysylltiad drwy negeseuon Facebook neu Twitter yn ddefnyddiol. Mae'r holl ddulliau gwahanol hyn o gyfathrebu'n gwneud mynediad yn haws i bobl fyddar.

Lle bo modd, defnyddiwch iaith glir, blaen, heb jargon nag ymadroddion cymhleth.

- **Cynhwyswch y staff i gyd yn eich cynlluniau.**

Archebwch hyfforddiant i'r staff mewn ymwybyddiaeth am fyddardod er mwyn gwneud yn siŵr bod gan bawb yr hyder i gyfranogi. Mae'r sefydliadau dilynol i gyd yn darparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi: y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol i Bobl Fyddar, y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar a'r Gymdeithas Frenhinol i Bobl Fyddar.

## Syniadau da am gyfathrebu

Un o'r prif heriau i bobl fyddar yw pan fyddent yn colli derbyn gwybodaeth neu gyfarwyddiadau. Gwelwch ein cyngor cyffredinol am gyfathrebu isod.

- Gofynnwch pa ddull o gyfathrebu sydd orau ganddynt. Efallai y byddai'n well ganddynt ddarllen gwefusau, siarad, ysgrifennu, arwyddo neu bob un o'r uchod!
- Gwnewch yn siŵr bod gennych sylw'r person cyn i chi ddechrau siarad â nhw.
- Ceisiwch osgoi bod â'ch cefn at olau llachar neu ffenestr – gall hyn ei wneud yn anodd darllen gwefusau neu wylio ystumiau'r wyneb.
- Mae safleoedd eistedd yn bwysig hefyd. Os ydych mewn grŵp bach, siâp cylch sydd orau ac os yw'r grŵp yn fwy, yna gwnewch yn siŵr nad yw'r seddi wedi eu gosod mewn llinell syth. Sicrhewch fod y bobl sydd angen eistedd yn y blaen yn gwneud hynny er mwyn iddynt allu gweld y siaradwr neu'r dehonglwr.
- Os bydd rhywun yn darllen gwefusau wrth i chi siarad, ceisiwch siarad yn yr un ffordd ag y byddwch chi bob amser. Peidiwch ag arafu na phwysleisio'r geiriau fwy – mae hyn yn newid patrwm eich gwefusau ac yn gallu gwneud i chi edrych yn ddig!
- Peidiwch â gorchuddio eich ceg pan fyddwch yn siarad, oherwydd mae hyn yn ei wneud yn anoddach fyth i ddarllen gwefusau.
- Peidiwch â gweiddi – mae gweiddi er mwyn ceisio gwneud i bobl eich clywed yn newid mynegiant eich wyneb.
- Ceisiwch ddysgu ychydig bach o iaith arwyddion os gallwch. Mae Action on Hearing Loss yn cyhoeddi taflen, *Learning British Sign Language*, sy'n cynnwys arwyddion sylfaenol a'r wyddor sillafu â'r bysedd.
- Defnyddiwch gliwiau gweledol gymaint ag y gallwch a phwyntiwch at y pethau neu'r lleoedd rydych yn siarad amdanynt.
- Peidiwch â siarad yn uniongyrchol â'r dehonglwr iaith arwyddion – edrychwch ar y person yr ydych yn cael sgwrs ag o/â hi.
- Peidiwch â chymryd arnoch eich bod yn deall os nad ydych.
- Diffoddwch gerddoriaeth neu sŵn cefndirol.
- Cofiwch, hyd yn oed os bydd rhywun yn gwisgo cymhorthion clyw, efallai na fyddent yn gallu eich clywed chi'n glir.

## Gwella mynediad ffisegol i'ch amgueddfa

Dechreuwch drwy weithio gyda phobl sy'n F/fyddar neu'n drwm eu clyw i ddeall beth sy'n rhwystr ffisegol. Opsiwn arall yw comisiynu archwiliwr mynediad i ddarparu cynllun gweithredu.

Dyma rai ffyrdd allweddol o wella'r mynediad ffisegol i'ch amgueddfa:

### Cynhwyswch gyflwyniad i BSL

Ystyriwch gynnwys cyflwyniad BSL (gydag is-deitlau) ar eich gwefan sy'n rhoi trosolwg byr o'ch amgueddfa. Efallai y byddwch eisiau cynnwys fideos BSL o'r deg gwrthrych gorau neu o daith o amgylch yr amgueddfa sy'n dangos uchafbwyntiau. Mae enghreifftiau o safleoedd treftadaeth eraill i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon.

### Ystyriwch ddisgrifiad sain a fideo

Os ydych yn dangos fideo gyda sain yn eich amgueddfa, gwnewch yn siŵr bod is-deitlau ar y fideo, neu darparwch drawsgrifiad os nad yw is-deitlau'n bosibl. Os ydych yn dangos darn sain yn unig, darparwch drawsgrifiad a gwnewch yn siŵr bod arwydd yn rhywle yn nodi bod trawsgrifiadau ar gael.

### Meddyliwch am acwsteg a goleuo

Crëwch amodau gwrando da. Er enghraifft, ystyriwch ddefnyddio ystafell wrthsain neu ystafell ddistawach ar gyfer gweithdy, yn lle neuadd fawr lle mae sŵn yn atsain neu ystafell gyda nenfwd uchel. Bydd lle gyda charpedi a dodrefn meddal yn dawelach oherwydd mae'r rhain yn amsugno sain ac yn helpu i leihau atsain.

Mae'r golau sydd yn y lle yma'n bwysig, a dylai pwy bynnag sy'n hyrwyddo'r sgwrs neu'r gweithdy osgoi eu gosod eu hunain gyda'u cefn at ffenestr neu olau llachar.

### Mannau tawel

Ystyriwch effaith sŵn cefndirol ar bobl sy'n gwisgo cymhorthion clyw – gall fod yn ddefnyddiol i gynnig amseroedd ymweld sy'n llai prysur neu fannau tawel yn eich amgueddfa.

### Dolenni clyw

Mae dolenni clyw yn fath arbennig o system sain i'w defnyddio gan bobl gyda chymhorthion clyw i gyfathrebu'n haws yn ystod sgyrsiau o fewn pellter agos (hyd at 1m i ffwrdd) mewn

mannau cyhoeddus, yn cynnwys desgiau derbynfa a chownteri swyddfeydd tocynnau. Dylech gael arwyddion clir i ddangos lle mae'r pwyntiau hyn. Gall ystafell gyfan gael system ddolen. Gallwch hefyd ddefnyddio dolenni clyw cludadwy mewn man lle mae gweithdy'n cael ei gyflwyno. Mae'n bwysig bod rhywun yn gwneud gwiriadau dyddiol i sicrhau eu bod yn gweithio.

**Cynnig tocynnau a chymorth hygyrch**

Er enghraifft, mae gostyngiad yn y prisiau ar gael i ymwelwyr anabl ac mae gan ofalwyr yr hawl i fynediad am ddim. Dylai staff wrth y ddesg wybodaeth gyfeirio ymwelwyr at unrhyw adnoddau sydd ar gael i gefnogi eu hymweliad.

**Gwnewch yn siŵr bod yr arwyddion yn glir a chryno**

## Cyflwynwch adnoddau wedi eu teilwra

Byddwch yn cael yr effaith orau drwy gyfuno gwahanol fathau o adnoddau ac mae hyn yn golygu y gall yr ymwelydd ddewis beth sydd orau iddyn nhw. Cofiwch siarad â theuluoedd wedi iddynt ymweld i gael eu hadborth am yr hyn a weithiodd orau iddyn nhw.

Dyma rai awgrymiadau am adnoddau a rhaglenni wedi eu teilwra:

**Mae canllawiau sain ar gael gydag is-deitlau neu ddehongliad BSL.**

Mae gan y Gymdeithas Dehonglwyr Iaith Arwyddion restr o ddehonglwyr cymeradwy.

**Sgyrsiau a theithiau BSL**

Cynigiwch amrywiaeth o weithgareddau gydag arweiniad BSL gyda defnyddiwr BSL byddar, hyrwyddwr celf byddar neu trefnwch gael dehonglwr. Ystyriwch hefyd gael trawsgrifiadau wedi eu symleiddio a thestunau ar gael i ymwelwyr sydd eu heisiau. Trefnwch deithiau ar adegau tawelach fel nad yw'r bobl sy'n methu arwyddo yn gorfod cystadlu â phob math o sŵn yn y cefndir. Os oes gennych gymhorthion radio, hysbysebwch y ffaith fod y rhain ar gael gennych i helpu pobl i gyfathrebu. Mae cymhorthion radio'n systemau sy'n anfon y sain yn ddiwifr o drawsyrrydd microffon i dderbynnydd sy'n cael ei wisgo gan y sawl sydd â nam ar y clyw. Yna, bydd y derbynnydd yn anfon y sain i gymhorthion clyw'r defnyddiwr neu ei broseswyr mewnblaniad yn y cochlea.

**Gweithdai creadigol**

Ystyriwch archebu cymorth cyfathrebu a hysbysebwch pryd y bydd hyn yn cael ei gynnig e.e. bob mis. Os yw'n weithgaredd i deuluoedd neu bobl ifanc ac os yw'n ddigwyddiad y gallwch ei archebu, ystyriwch ychwanegu llinell i'ch deunydd marchnata – "Mae cymorth cyfathrebu ar gael os gofynnwch". Trwy wneud hynny gallwch ymateb i'r galw a hefyd archebu'r math gorau o gymorth cyfathrebu e.e. dehonglwr BSL, rhywun sy'n darparu SSE (Saesneg gyda Chymorth Arwyddion), rhywun i gymryd nodiadau ,ac ati.

I deuluoedd sy'n defnyddio BSL a Saesneg llafar hefyd, mae cael dehonglwr yn golygu y gallant gymryd rhan ar sail gyfartal.

Defnyddiwch luniau yn y gweithdai fel cliwiau gweledol ac amrywiaeth o gyfryngau cymysg.

**Dehongliad trwy gyffwrdd**

Darparwch warbaciau synhwyraidd gyda defnyddiau neu wrthrychau sy'n gysylltiedig â'r casgliad sy'n cael ei arddangos. Mae hyn yn rhoi ffordd wahanol i ymwelwyr archwilio gwrthrychau.

**Adnoddau digidol**

Os byddwch yn cynnig adnoddau ar-lein, gwnewch yn siŵr bod capsiynau ar y rhain, a chynigiwch ddehongliad BSL os gallwch, Crëodd y prosiect History of Place amrywiaeth o gemau ar-lein sy'n hygyrch i bobl sy'n F/fyddar ac yn drwm eu clyw.

## Ac yn olaf…

**Rhai awgrymiadau da:**

- Peidiwch ag ailddyfeisio'r olwyn – ceisiwch gyngor a defnyddiwch yr adnoddau sydd gennych yn barod.
- Addaswch eich ffocws treftadaeth a gweithiwch gyda phartneriaid lleol, staff, gwirfoddolwyr a chynulleidfaoedd.
- Mae angen cefnogi mynediad a chynhwysiad gyda digon o arian a staff – i gefnogi hyfforddiant neu i wella mynediad ffisegol.
- Mae gwella mynediad i bobl sy'n F/fyddar neu'n drwm eu clyw hefyd yn gwella mynediad i gynulleidfaoedd eraill ac yn gwella'r profiad i ymwelwyr yn gyffredinol.
- Cynhwyswch yr hyn a ddysgwch yn eich gwaith a chynlluniwch ar gyfer ymwelwyr y dyfodol.

- Rhaglennwch ddigwyddiadau i gyd-daro ag ymgyrchoedd cenedlaethol fel Wythnos Ymwybyddiaeth y Byddar neu Wythnos Iaith Arwyddion,
- Rhowch gynnig ar eich syniadau – does dim rhaid iddyn nhw fod yn berffaith, ond byddwch wedi cychwyn rhywbeth.

**Rhai o'r pethau y mae amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth yn eu cynnig:**

- Amgueddfa Gwyddoniaeth: SIGNific
  Digwyddiadau cynhwysol i deuluoedd sydd ag aelodau sy'n F/fyddar, drwm eu clyw neu sy'n defnyddio mewnblaniadau yn y cochlea. Mae'r cyflwynwyr yn defnyddio BSL a dehonglwyr trosleisio ac is-benawdau byw. Felly mae SIGNtific mor hygyrch ag y gall fod.
- Yr Oriel Genedlaethol, Digwyddiadau hygyrch
  Mae'r Oriel Genedlaethol yn sicrhau bod ei digwyddiadau'n hygyrch i ymwelwyr B/byddar neu drwm eu clyw drwy gael dolenni clyw, sgyrsiau BSL a chapsiynu testun o sgwrs fyw.
- Royal Albert Memorial Museum, Exeter: fideos BSL
  Mae fideos gyda BSL, sain ac is-deitlau'n cyflwyno RAMM, ei gwasanaethau a'r gwrthrychau allweddol sy'n cael eu harddangos.
- Exeter Deaf Academy: Fideo Diwrnod Meddiannu
  Myfyrwyr o Academi y Byddar Exeter yn dangos eu hoff wrthrychau sy'n cael eu harddangos yn RAMM. Gwnaethpwyd y ffilm hon yn rhan o'r Diwrnod Meddiannu yn 2014. Mae ganddi BSL, is-deitlau a sain.
- Oriel Gelf Manceinion: Teithiau misol
  Teithiau gydag arweiniad BSL yn yr Oriel bob mis. Mae fideo mewn BSL ar y wefan gan un o'r Tywyswyr Byddar yn rhoi cyflwyniad i'r rhaglen. Gallwch archebu dehonglwr BSL ar gyfer unrhyw un o ddigwyddiadau'r Oriel ar yr amod eich bod yn ffonio o flaen llaw.
- Heritage Ability
  Gyda chyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, mae Heritage Ability yn helpu o leiaf 20 o gyrchnodau treftadaeth yn Ne Orllewin Lloegr i fod yn fwy hygyrch. Mae'n cael i ddarparu gan dîm yn Living Options Devon, sef elusen anabledd fechan yn Ne Orllewin Lloegr. I bobl Fyddar sy'n defnyddio BSL, byddent yn gweithio gyda'r gymuned i greu fideos BSL.
- The Deaf Visual Archive
  Archif ar-lein sydd â'r nod o wneud treftadaeth Fyddar yn hygyrch.
- See and Create
  Lle i Deuluoedd Byddar fynd i ganfod rhagor am ddigwyddiadau creadigol hygyrch i'r Byddar yn Medway, Caint. Maen nhw'n darparu gwefan o restrau lle gallwch chwilio am weithgareddau a gweithdai hwyliog sy'n addas i BSL, ond maen nhw hefyd yn cydlynu eu digwyddiadau eu hunain.

**Sefydliadau all ddarparu rhagor o wybodaeth a chyngor:**

- Cyngor gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar:
  Cyfathrebu gyda Phlentyn Byddar
  Sut i fod yn Fyddar-gyfeillgar   Awgrymiadau am gelfyddydau sy'n fyddar-gyfeillgar
  Addasu gweithgareddau
- Y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol i Bobl Fyddar
  Mae hwn yn darparu hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth am BSL, gwasanaeth archwilio a chyngor am dechnoleg.
- Cymdeithas Brydeinig y Byddar (BDA)
  Y BDA yw sefydliad aelodaeth ac elusen gofrestredig arweiniol y Deyrnas Unedig a redir gan bobl Fyddar i bobl Fyddar. Mae'r BDA yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i gyflawni ei amcanion o rymuso pobl Fyddar i oresgyn anawsterau y maent yn eu hwynebu bob dydd.

**Adnoddau:**

- Rhaglen creu poster o eirfa BSL
  Rhaglen i greu arwyddion a thaflenni o eiriau allweddol mewn BSL.
- Adnoddau addysgu Twinkl
  Gwefan ddefnyddiol i lawrlwytho posteri, cardiau fflach a deunyddiau ar gyfer addysgu, yn ogystal ag adnoddau defnyddiol eraill ar gyfer digwyddiadau, fel Wythnos Ymwybyddiaeth y Byddar a'r Wythnos Iaith Arwyddion.
- Rhwydwaith Anabledd Cydweithredol (DCN)
  Mae DCN yn gweithio i hyrwyddo ac ymwreiddio arferion cynhwysol yn y sector treftadaeth a diwylliannol.
- Pecyn cymorth i ennyn diddordeb pobl ifanc fyddar ac anabl mewn treftadaeth
  Mae'r pecyn cymorth hwn gan y prosiect 'History of Place' yn ddogfen sy'n esbonio i sefydliadau sydd eisiau ennyn diddordeb pobl ifanc fyddar ac anabl sut i fynd o'i chwmpas hi.

**Cyfeirlyfr Cymorth Mynediad**

- Y Gymdeithas Dehonglwyr Iaith Arwyddion
- Llafar i Destun (Palandeipydd)
- Cymdeithas y Siaradwyr Gwefus
- Capsiynu